# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
# DYDD IAU, 26 IONAWR 2023

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Menna Baines, Jina Gwyrfai, Medwyn Hughes, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell ac Elfed Wyn ap Elwyn

**Aelodau Lleyg**: Sharon Warnes (Cadeirydd), Hywel Eifion Jones, Clare Hitchcock a Rhys Parry

**Swyddogion:** Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cynaliadwyedd a Datblygiadau), Caren Rees-Jones (Cyfrifydd Grwp - Cyfalaf a Rheolaeth), Caleb Lewis (Hyfforddai Proffesiynol Cyllid a Chyfrifeg), Bleddyn Rhys (Arweinydd Archwilio), Eva Chan Williams (Arweinydd Archwilio) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

- Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid)
- Eitem 5: Yvonne Thomas, Erin Pollard ac Alan Hughes (Archwilio Cymru)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Rob Triggs

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 17 Tachwedd 2022 fel rhai cywir.

## 5. CYFRIFON TERFYNOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2022 A'R ARCHWILIAD PERTHNASOL

a) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid yn gofyn i'r pwyllgor ystyried a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon 2021/22 (ôl-archwiliad), adroddiad 'ISA260' Archwilio Cymru a'r Llythyr Cynrychiolaeth (Atodiad 1 i adroddiad Archwilio Cymru), cyn awdurdodi'r Cadeirydd i ardystio'r llythyr yn electroneg.

Nododd yr Aelod Cabinet Cyllid bod y Swyddogion wedi rhyddhau'r cyfrifon i Archwilio Cymru 13-06-2022 fel bod modd i Archwilio Cymru baratoi

adroddiad er cymeradwyaeth y Pwyllgor. Atgoffwyd yr Aelodau bod cyfrifon amodol wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor 08-09-2022, ble amlygwyd y prif faterion ar nodiadau perthnasol.

Ategodd y Pennaeth Cyllid bod oediad eleni i dderbyn adroddiad gan Archwilio Cymru oherwydd mater technegol yn ymwneud ag isadeiladwaith, oedd yn golygu mai yn Ionawr 2023 roedd cyfrifon terfynol 2021/22 holl Awdurdodau Lleol Cymru yn cael eu cymeradwyo. Diolchodd i'r holl swyddogion oedd wedi bod yn rhan o'r broses.

Arweiniodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau yr Aelodau drwy'r adroddiad gan amlygu bod mân addasiadau i'r un a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ym mis Medi 2022. Tynnwyd sylw at y canlynol:

- Nodyn 15 - Eiddo, Offer a Chyfarpar – I gydymffurfio gyda gofynion cenedlaethol, isadeiladwaith wedi ei dynnu allan o'r prif dabl yn Nodyn 15 ar gyfer y ddwy flynedd ac wedi ei ychwanegu fel rhan ar wahân
- Oherwydd chwyddiant uchel, o gymharu gyda chwyddiant sefydlog isel dros y blynyddoedd diwethaf, bod goblygiadau ar y prisio, ac felly trefniadau arferol wedi eu haddasu. O ganlyniad, y prisio yn uwch mewn ymateb i'r chwyddiant uwch.
- Nodyn 15 Eiddo, Offer a Chyfarpar – bu adolygiad o'r asedau oedd wedi gorffen cael eu dibrisio, ond yn parhau ar y gofrestr asedau. Y rhai nad oedd bellach yn weithredol wedi eu dadgydnabod, ac wedi eu dileu o'r nodyn.
- Nodyn 19 – Arian a Chyfwerthoedd arian – addasiad i drefn o ddangos ffigyrau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn - addasiad ar yr elfen gorddrafft ac yna addasiad cyfwerth ar y credydwyr (addasiad ar gyfer 2021/22 a 2020/21).
- Nodyn 30 – Taliadau i Swyddogion – mân addasiadau yn rhannol oherwydd anghysondeb rhwng cyfarwyddiadau CIPFA a'r Ddeddf (cyfarwyddiadau CIPFA wedi eu dilyn)
- Nodyn 35 – Prydlesau – cwmni Cynnal wedi dod i ben diwedd Mawrth 2022, ond yn parhau i ymddangos yn y nodyn – nid oedd bellach angen ei gynnwys.
- Nodyn 27 - Dadansoddiad Natur Gwariant ac Incwm - addasiad technegol yn ymwneud a chategoreiddio incwm (dim effaith ar y llinell waelod ond yn hytrach rhwng un is-bennawd a'r llall)

Cyfeiriwyd at ddau argymhelliad gan Archwilio Cymru.

1. Yn dilyn adolygiad o gredydwyr tymor byr, bod credydwyr y Cyngor wedi eu gor ddatgan o £274k yn 31/03/2022. Cafwyd eglurhad mai mater o amseriad oedd yn gyfrifol am hyn ac er bod y credydwr angen bod yno yn flaenorol, roedd y sefyllfa wedi newid erbyn diwedd y flwyddyn ariannol a felly dylid fod wedi dileu'r swm. Gan nad oedd y swm o £274k yn faterol, yr addasiad yn cael ei weithredu yng nghyfrifon 2022/23.
2. Adolygu ac atgyfnerthu papurau gwaith ymhellach i ddarparu trywydd archwilio clir.

Y bwriad yw cydweithio ar yr argymhellion gydag Archwilio Cymru ar gyfer cyfrifon 2022/23.

b) Diolchwyd am y cyflwyniad

c) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r £274k a'i berthnasedd gyda chyfanswm

potensial risg o £3,308,000, nodwyd mai £274k oedd cyfanswm y gwall a hynny oherwydd gwerth yr hen gredydwyr o gymharu gyda rhai cyfredol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â’r defnydd o ganllawiau CIPFA a’r angen felly i gysylltu gyda CIPFA i nodi bod eu canllawiau yn groes i’r Ddeddf, nodwyd bod cyfle i dynnu sylw at hyn mewn cyfarfod gyda CIPFA 31-01-23

ch) Gwahoddwyd Yvonne Thomas (Archwilio Cymru) i gyflwyno adroddiad ‘ISA260’. Adroddwyd na all archwilwyr roi sicrwydd cyflawn bod cyfrifon wedi’u datgan yn gywir ond yn hytrach yn gweithio i lefel o ‘berthnasedd’. Nodwyd bod yr archwilwyr yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar y cyfrifon, unwaith y byddai’r Llythyr Cynrychiolaeth wedi ei arwyddo. Diolchwyd i’r Swyddogion am eu cydweithrediad.

d) Llongyfarchwyd yr Adran Cyllid ar y gwaith gan nodi boddhad o dderbyn datganiad di-amod.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn a chymeradwyo Adroddiad 'ISA260’ gan Archwilio Cymru ar gyfer Cyngor Gwynedd**
- **Derbyn a chymeradwyo Datganiad o’r Cyfrifon 2021/22 (ôl-archwiliad) - Cadeirydd y Pwyllgor i ardystio’r Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad o’r Cyfrifon**
- **Cadeirydd y Pwyllgor ynghyd a’r Pennaeth Cyllid i ardystio’r Llythyr Cynrychiolaeth yn electroneg**
- **Llongyfarch y swyddogion ar eu gwaith o dderbyn datganiad diamod**

**6. CYLLIDEB REFENIW 2022/23 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2022**

a) Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod Cabinet Cyllid yn gofyn i’r pwyllgor graffu’r sefyllfa a’r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau’r Cyngor a’i adrannau, ac ystyried penderfyniadau’r Cabinet 24-01-23.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun i’r adroddiad drwy nodi:-

- Er nad yw effaith Covid mor sylweddol yn 2022/23 o’i gymharu â’r ddwy flynedd flaenorol, bod costau ychwanegol, colledion incwm a llithriad ar gynlluniau arbedion yn parhau mewn rhai meysydd.
- Bod rhagolygon presennol yn awgrymu y bydd yr Adrannau Oedolion, Iechyd a Llesiant, Plant a Theuluoedd, Addysg, Economi a Chymuned, Priffyrdd a Bwrdeistrefol a Thai ac Eiddo yn gorwario erbyn diwedd y flwyddyn.
- Bod oediad mewn gwireddu Arbedion yn ffactor

Ategodd mai adrodd ar y sefyllfa oedd y swyddogion Cyllid ac mai’r Adrannau eu hunain oedd yn gyfrifol am eu cyllidebau.

b) Amlygodd yr Pennaeth Cyllid Cynorthwyol y canlynol:

- Y byddai’r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gyda gorwariant o dros £2.2 miliwn eleni, a hynny yn gyfuniad o nifer o ffactorau, gan gynnwys methiant i wireddu gwerth £930k o arbedion.
- Y byddai’r Adran Addysg gyda gorwariant o £1.6m sydd yn ganlyniad i effaith cost ychwanegol chwyddiant cyflogau athrawon, cymorthyddion a staff gweinyddol (£1,031k uwchlaw‘r gyllideb eleni); a chostau prisau

trydan uwch. Ategwyd, o ystyried fod yr ysgolion eisoes wedi elwa o bron i filiwn o arbedion ynni yn deillio o Covid a'r cyfnodau clo cysylltiedig, byddai'n briodol defnyddio balansau ysgolion i gyllido'r pwysau ychwanegol eleni.

- Byw'n Iach - bod sgil effaith Covid yn parhau yn 2022/23 ac yn amharu ar allu'r cwmni i gynhyrchu incwm. O ganlyniad, cadarnhawyd bod y Cyngor wedi cymeradwyo cefnogaeth ariannol angenrheidiol i gynnal gwasanaethau drwy ymestyn y cyfnod o sicrwydd a roddwyd i'r Cwmni hyd at ddiwedd 2022/23, sydd oddeutu £839k eleni. Nodwyd mai prisiau trydan uwch sydd yn gyfrifol am weddill gorwariant Byw'n Iach.
- Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol – bod y tueddiad blynyddol o orwariant yn y maes bwrdeistrefol yn parhau, gyda'r problemau amlycaf yn y maes casglu gwastraff ac ailgylchu. Yr adran hefyd yn cael trafferthion gwireddu arbedion gwerth £608k.
- Tai ac Eiddo – goblygiadau newid i ddeddfwriaeth yn ymwneud â Digartrefedd yn golygu pwysau ariannol sylweddol. Er bod dyraniad o £1.5m o gronfa trefniadau yn sgil covid y Cyngor wedi ei roi i gynorthwyo'r sefyllfa, rhagwelir gorwariant net o £2.7miliwn eleni.
- Corfforaethol - rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2022/23 a newid i ddeddfwriaeth yn gyfrifol am gynnyrch treth ychwanegol, gyda thai yn trosglwyddo o drethi annomestig i dreth cyngor ynghyd â lleihad yn y niferoedd sydd yn hawlio gostyngiad treth cyngor o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Y cynnydd diweddar mewn cyfraddau llog yn golygu fod y rhagolygon derbyniad llog £1.3 miliwn yn fwy ffafriol nag a gyllidebwyd amdano.

Adroddwyd bwriad o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor a balansau'r Ysgolion i gyllido'r bwlch ariannol o £7.4 miliwn a ragwelir am 2022/23. O ganlyniad, drwy ddefnyddio cronfeydd penodol, bod balansau cyffredinol wedi eu gwarchod ac ar gael i wynebu heriau'r dyfodol.

c) Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â Chronfa Adfer yn sgil Covid, ac os yw'n gronfa tu allan i falansau'r Cyngor, cadarnhawyd bod y Gronfa yn un ychwanegol ac wedi ei chreu mewn ymateb i heriau Covid. Ategwyd, gydag arian adfer y Llywodraeth wedi dod i ben, bod y Gronfa wedi ei sefydlu mewn ymateb i hynny.

Mewn ymateb i sylw yn yr adroddiad o 'ddefnyddio balansau ysgolion i gyllido'r pwysau ychwanegol *eleni'*, os oes effaith 'mwy nag un eleni yma' a bod defnyddio balansau yn rhywbeth blynyddol, nodwyd bod cyllidebau ysgolion wedi eu gosod ar gyfer 2023/34 a'r cyflogau wedi eu gosod ar lefel 'cynnydd' 22/23. Gan fod y cynnydd wedi ei gyflwyno ym mis Hydref ar lefel chwyddiant, gwelwyd bod y costau gwirioneddol yn fwy ac felly yn creu costau ychwanegol uwchlaw lefel y gyllideb.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â diffiniad "digartrefedd" ac os yw'r costau ychwanegol o ganlyniad i gynnydd real mewn digartrefedd neu fod y term digartrefedd wedi ei ail ddiffinio mewn ymateb i'r ddeddfwriaeth newydd, nodwyd bod cynnydd yn y nifer o unigolion digartref o dan ddiffiniad y ddeddf. Canlyniad hyn yw fod y Cyngor gorfod ymdrin â mwy o achosion, ac felly'n gorfod darganfod / darparu llety ar eu cyfer. Ategwyd bod y sefyllfa fel effaith caseg eira - diffyg llety ac o ganlyniad y digartref yn cael eu gosod mewn llety dros dro sy'n creu effaith gynyddol ar yr Awdurdodau.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â bwriad y Prif Weithredwr i gyfarfod gyda Phennaeth yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i drafod gorwariant maes 'gwastraff', adroddwyd bod y cyfarfod, gyda gwahoddiad i Pennaeth yr Adran Amgylchedd wedi ei gynnal, a bod adroddiad o ddeilliant y cyfarfod hwnnw i'w gyflwyno i'r Cabinet yn fuan. Ategwyd bod bwriad ymgynghori gyda WRAP i ystyried y cylch casglu, trefniadau casglu a chamau posib i reoli'r gwariant sydd yn bryder blynyddol. Mewn ymateb i gwestiwn ategol ynglŷn â'r adroddiad, nodwyd y byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau fydd yn rhoi adborth o'r sylwadau a'r camau gweithredu.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â defnyddio arian premiwm rhai dosbarthau o ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor i gau'r bwlch ariannol ym maes digartrefedd yn hytrach na defnyddio reserfau o ystyried mai bwriad arian y premiwm oedd i weithredu Cynllun Tai'r Cyngor a chadw pobl leol yn eu cymunedau, nodwyd mai UN waith y bydd arian y premiwm yn cael ei ddefnyddio ar gyfer digartrefedd ac na fydd hyn yn cael effaith ar weithredu'r Cynllun Tai. Ategwyd, yn sicr, na fydd arian y premiwm yn cael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw faes arall ac na fydd defnydd cyffredinol iddo.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau**
2. **Cytuno gydag argymhelliad y Cabinet (24-01-23) i gymeradwyo:**
    - **Trosglwyddo £3.188 miliwn o danwariant ar gyllidebau Corfforaethol i Gronfa Strategaeth Ariannol y Cyngor.**
    - **Pan yn amserol, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, defnyddio**
        a) **Balansau Ysgolion i gyllido costau ychwanegol chwyddiant cyflogau athrawon, cymhorthyddïon, staff gweinyddol a thrydan sydd uwchlaw lefel y gyllideb yn yr ysgolion**
        b) **Cronfa Premiwm Treth Cyngor i gyllido'r pwysau ychwanegol yn y maes Digartrefedd**
        c) **Cronfa Trefniadau adfer yn sgil Covid a sefydlwyd i gyllido heriau ariannol cysylltiedig sy'n wynebu'r Cyngor.**

## 7. RHAGLEN GYFALAF 2022/23 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2022

a) Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid. Prif ddiben yr adroddiad oedd cyflwyno'r rhaglen gyfalaf (sefyllfa diwedd Tachwedd 2022) a gofyn i'r Pwyllgor ystyried y ffynonellau ariannu perthnasol a chraffu penderfynaidau'r Cabinet (24-01-23). Cyfeiriwyd at ddadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £140.6 miliwn am y 3 blynedd 2022/23 - 2024/25 ynghyd a'r ffynonellau sydd ar gael i ariannu'r cynnydd net sydd oddeutu £4.3 miliwn ers yr adolygiad diwethaf.

b) Ategodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol,

- bod y Cyngor gyda chynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £53 miliwn eleni, gyda £20 miliwn (sef 38%) ohono wedi'i ariannu trwy grantiau penodol.
- bod effaith heriau ariannol diweddar yn parhau ar y rhaglen gyfalaf gyda 40% o'r gyllideb wedi ei wario hyd at ddiwedd Tachwedd 2022 o gymharu gyda 37% dros yr un cyfnod yn 2021, 31% yn 2020 51% yn 2019/20 cyn amhariad covid
- bod £28.7m o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2022/23 i 2023/24 a

2024/25, gyda'r prif gynlluniau yn cynnwys, £11.4 miliwn Cynlluniau Strategaeth Tai, £5.5 miliwn Cynlluniau Ysgolion – Cymunedau Dysgu Cynaladwy ac Eraill a £4.1 miliwn Adnewyddu Cerbydau.

Tynnwyd sylw at restr grantiau ychwanegol roedd y Cyngor wedi llwyddo i'w denu oedd yn cynnwys Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - Ysgol Treferthyr, Grant Cyfalaf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Grant Llywodraeth Cymru tuag at Gynlluniau Gwledig - Gwella Mynediad.

c) Diolchwyd am yr adroddiad ac i'r swyddogion ar ganfod grantiau ychwanegol.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau**
- **Cytuno gyda phenderfyniadau'r Cabinet (24-01-23)**

## 8. TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

a) Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid yn gofyn i'r pwyllgor nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion, ystyried penderfyniadau'r Cabinet (24-01-2023) a sylwebu fel bo angen.

b) Ategodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol,

- Ers 2015/16, bod gwerth £35.4m o arbedion wedi eu cymeradwyo i'w gwireddu rhwng 2015/16 - 2022/23. Nodwyd fod dros £33.5 miliwn o'r arbedion yma bellach wedi eu gwireddu sydd yn 95% o'r swm gofynnol dros y cyfnod.
- Y prif gynlluniau sydd eto i'w cyflawni yw cynlluniau gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.
- 22% o arbedion 2022/23 eisoes wedi eu gwireddu a 2% pellach ar drac i gyflawni'n amserol. Adrannau sydd gyda'r gwerth uchaf o ran cynlluniau sydd eto i'w cyflawni yw'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.
- Bod gwerth £1.129m o arbedion eisoes wedi eu cymeradwyo ar gyfer 2023/24 gyda chynlluniau arbedion a thoriadau ychwanegol dan ystyriaeth
- Bod gwireddu gwerth £33.5m o arbedion (allan o £35.4 miliwn) ers Ebrill 2015 wedi bod yn heriol gydag oediad a risgiau i gyflawni rhai o'r cynlluniau sy'n weddill.

Adroddwyd bod y Cabinet wedi derbyn yr holl argymhellion ynghyd a'r wybodaeth am y cynnydd i wireddu cynlluniau arbedion 2022/23.

c) Diolchwyd am yr adroddiad. Nodwyd yr angen i ganolbwyntio ar y llwyddiant - bod 95% o'r Arbedion wedi eu gwireddu - y tuedd yw rhoi gormod o ffocws ar y rhai hynny sydd heb eu gwireddu, sydd efallai'r rhai anoddach.

Mewn ymateb i sylw bod rhai o'r cynlluniau yn rai o godi costau / ennill incwm yn hytrach na chynlluniau arbedion ar effaith caiff hynny o ran costau

darpariaeth i drigolion sydd efallai, o ganlyniad yn cael effaith ar y gwasanaeth, nodwyd mai cynlluniau arbedion sy'n cael eu cyflwyno gan yr Adrannau a hynny mewn ymateb i ganran sydd yn cael ei gosod. Bydd y cynlluniau hynny yn cael eu hasesu gan Aelodau ac os bydd codi incwm yn rhan o'r cynllun, bod hynny wedi derbyn ystyriaeth. Mewn ymateb i gwestiwn ategol, ynglŷn ag asesu'r cynlluniau, cadarnhawyd bod asesiadau cyfreithiol, cyllidol a chydraddoldeb yn cael ei weithredu ar gyfer pob cynllun.

Mewn ymateb i sylw bod 95% yn ganlyniad derbyniol iawn, ond i'r dyfodol, anodd fydd canfod arbedion ynghyd sgil effaith toriadau posib, gwnaed cais am adroddiad yn nodi'r strategaeth sydd tu cefn i'r drefn toriadau / arbedion o flaenoriaethu a gosod targedau. Nododd y Pennaeth Cyllid y bydd y Strategaeth Arbedion yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn y cyfarfod ar y 9fed o Chwefror. Yn y cyfarfod hwnnw, bydd y cynigion ar gyfer toriadau yn cael eu cyflwyno am sylwadau gan y Pwyllgor fydd yn eu tro yn cael eu cynnwys mewn adroddiad i'r Cabinet (14-02-23), fydd o ganlyniad yn cynnig argymhellion i'r Cyngor Llawn 02-03-23.

Ategodd yr Aelod Cabinet bod Cadeiryddion Craffu ac Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol i dderbyn cyflwyniad ar gynigion i arbedion a thoriadau 2023/24 a'r Aelodau Etholedig i dderbyn gwahoddiad i gyflwyniad gan y Prif Weithredwr.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Nodi'r cynnydd, y sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt Trosolwg Arbedion**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 11.15 y.b.

**CADEIRYDD**